Dathlu

Gobeithio i chi i gyd gael Dydd Gŵyl Ddewi hapus. Bu dathlu ar draws y wlad ac yn ysgolion Cymru. Felly bu ein hanes ym Mhenrhyn-coch gyda'r plant wedi eu gwisgo yn eu gwisg Gymreig. Cynhaliwyd eisteddfod fyrlymus gyda chystadlu brwd.

Llawer o ddiolch i'r beirniad Mrs Eira Williams am roi o'i hamser.

Seilo ddaeth i'r brig eleni ond roedd Stewi yn dynn wrth eu sodlau.

Llongyfarchiadau arbennig i Trystan Davies am ennill y gadair am ddarn o farddoniaeth rydd – "Y Bocs Bach Sgwâr".

Nofio

Yn ystod y mis cynhaliwyd cystadleuaeth nofio ar gyfer ysgolion Aberystwyth a'r cylch. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu ac yn arbennig i:

- Rebecca Kenny a ddaeth yn 1af am nofio cefn
- Sara Morgan a ddaeth yn 2il am nofio broga
- Kayleigh Shaw a ddaeth yn 2il yn yr agored a'r cefn
- Callum Stone a ddaeth yn 2il yn y pili pala
- Tirion Lewis a ddaeth yn 3ydd yn y nofio rhydd.

Pêl-droed

Cynhaliwyd cwrs pêl-droed yn Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Joshua Shaw am gael ei ddewis yn chwaraewr yr wythnos.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Charlotte Griffiths am ddod yn ail am lefaru yn eisteddfod Aberteifi. Eisteddfod Penrhyn-coch nesaf Charlotte!

Gwaith project

Bydd blynyddoedd 5 a 6 yn brysur y tymor hwn, y naill gyda project gwyddoniaeth IGER, a'r llall gyda phroject Addysg a Busnes Llaethdy Rachel. Edrychwn ymlaen at gael gweld eich cywaith.